***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3054

# Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr Cefnenni Tywod Scarweather 2004

## RHAN II

## GWEITHFEYDD

*Diogelu mordwyo a thraffig awyr, a rheoli sŵn*

**Diddymu gweithfeydd sydd wedi'u gadael neu sydd wedi dadfeilio**

**10.**—(1) Pan fydd gweithfeydd llanw'r môr wedi'u gadael, neu wedi'u gadael i ddadfeilio, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol hysbysu'r ymgymerwr yn ysgrifenedig ei fod yn ofynnol un ai iddo drwsio ac adfer y gweithfeydd neu unrhyw ran ohonynt, neu iddo dynnu'r gweithfeydd oddi yno ac adfer y safle i'w gyflwr blaenorol, a hynny ar ei draul ei hunan ac i'r graddau ac o fewn y terfynau hynny y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol eu pennu yn yr hysbysiad.

(2) Os bydd gweithfeydd sydd yn rhannol yn weithfeydd llanw'r môr ac yn rhannol yn weithfeydd ar dir neu dros dir uwchben lefel y dŵr uchel wedi'u gadael, neu wedi'u gadael i ddadfeilio, a bod rhan honno o'r gweithfeydd sydd ar y tir neu dros dir yn y fath gyflwr fel ei bod yn amharu, neu'n achosi pryder rhesymol y gallai amharu ar yr hawl i fordwyo neu ar unrhyw hawliau cyhoeddus eraill o ran y blaendraeth, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gynnwys y rhan honno o'r gweithfeydd, neu unrhyw ran ohoni, mewn unrhyw hysbysiad o dan yr erthygl hon.

(3) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw ddadgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig yn unol â phlan dadgomisiynu a gytunwyd gyda Chomisiynwyr Ystad y Goron neu a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan unrhyw amod a osodwyd mewn trwydded a roddwyd o dan adran 5 o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985(**1**).

(**1**) 1985 p.48.